COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 14 CHWEFROR 2019, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | NA Burnett | DK Edwards | RM Granville |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JC Radcliffe | JC Spanswick |
| RME Stirman | MC Voisey | KJ Watts | CA Webster |
| A Williams | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy a/ac JE Lewis

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gareth Denning | Principal S106 Officer |
| Lee Evans | Uwch Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Richard Matthams | Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

216. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-

Cynghorydd JE Lewis
Cynghorydd S Dendy

217. DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Amanda Williams gysylltiad rhagfarnus â'r cais canlynol, oherwydd roedd hi wedi'i wrthwynebu ac wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw yn ei gylch – P/18/929/RES

218. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cytuno ar y dyddiad dydd Mercher 27 Mawrth 2019 ar gyfer archwiliadau safle arfaethedig oedd yn codi yn y cyfarfod, neu a ddynodwyd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd

219. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 3 Ionawr 2019, fel cofnod gwir a chywir.

220. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus.

221. TAFLEN DDIWYGIADAU

Nid oedd Taflen Ddiwygiadau.

222. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi crynodeb Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y manylir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

223. P/16/609/FUL – TIR RHWNG 47 A 49 WOODLAND AVENUE, PORTHCAWL, CF36 5HW

PENDERFYNWYD: (1) O ystyried y cais canlynol, bod yr ymgeisydd yn mynd i Gytundeb Adran 106 i:-

i. sicrhau nad yw'r Woodland Hall/Neuadd y Sgowtiaid yn cael ei dymchwel ac ni chaiff unrhyw ddatblygiad ei gychwyn hyd nes i'r Awdurdod Cynllunio Lleol dderbyn a chydnabod iddynt dderbyn copi o'r dogfennau cyfreithiol sy'n dangos bod Neuadd Gilgal wedi'i chaffael gan Gymoedd i'r Arfordir ac yn cael ei phrydlesu i'r Sgowtiaid a bod tystiolaeth ysgrifenedig fod y Sgowtiaid wedi symud yn gorfforol i Neuadd Gilgal.

ii. darparu 30% o'r unedau preswyl fel unedau tai fforddiadwy yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy

iii. darparu cyfraniad ariannol am y swm o £8,510 tuag at welliant pellach i'r lle adloniant yn Heol Y Goedwig, Porthcawl.

(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yn cael grymoedd llawn i gyhoeddi hysbysiad penderfynu'n rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cais hwn ar ôl i'r ymgeisydd ddechrau'r Cytundeb Adran 106 a grybwyllwyd uchod, yn amodol ar yr Amodau yn ei adroddiad i'r Pwyllgor, dyddiedig 3 Ionawr 2019.

Cais

Dymchwel y strwythurau presennol ac adeiladu 10 annedd a gwaith cysylltiedig

224. P/18/954/RLX – TIR YM MOOR LANE, PORTHCAWL, CF36 3EJ

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn amodol ar yr Amodau a'r Nodiadau yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-

Cais

Amrywio Amod 1 P/17/554/RLX i newid uchder unedau'r cabanau o 3.05m i 5 m.

225. P/18/929/RES – MEYSYDD CHWARAE YM MHARC DERWEN, PEN-Y-BONT AR OGWR

PENDERFYNWYD: Gohirio'r cais uchod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor er mwyn i'r Aelodau gael cyfle i ymgymryd ag Archwiliad Safle Pwyllgor llawn.

Cais

Ailbroffilio a thirlunio'r cloddiau ar ochr ddeheuol y meysydd chwarae.

226. APELIADAU

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r Apeliadau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, a dderbyniwyd ers ei adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor.

(2) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i gadarnhau'r Apeliadau canlynol wedi rhoi cyfarwyddwyd i'w Gollwng:-

| Rhif Cod. | Testun yr Apeliadau |
|---|---|
| A/18/3213353 (1841) | Adeiladu 2 annedd deulawr ar wahân – Plot 65, Duffryn Oaks Drive, Pencoed. |
| A/18/3214133 (1843) | Sied wyna newydd arfaethedig: Tir i ochr ddeheuol Pant Hirwaun, Heol-Y-Cyw. |
| A/18/3215516 (1846) | Addasu gweithdy ac adeiladu estyniad ochr i ddarparu annedd un llawr ar wahân; israniad o'r ardd gefn i ddarparu man amwynder, parcio etc: 63 Ogwy Street, Nantymoel. |

(3) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i gadarnhau'r Apêl ganlynol wedi cael cyfarwyddyd eu bod yn cael Caniatâd, yn amodol ar yr Amodau, i wneud y canlynol:-

| Rhif Cod. | Testun yr Apeliadau |
|---|---|
| A/18/3215314 (1844) | Amrywio Amod 4 P/16/844/FUL ac Amod 2 P/17/940/RLX mewn perthynas â defnyddio'r grisiau dur: Fflat llawr cyntaf a gardd gefn, 12 Suffolk Place, Porthcawl |
| D/18/3216843 (1847) | Adeiladu modurdy dwbl ar wahân gyda lle storio yn y llofft (Ailgyflwyno cymeradwyaeth P/16/331/FUL gyda diwygiadau): Bradford Cottage, Llangeinor |

227. COFRESTR SAFLEOEDD YMGEISIOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) NEWYDD PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad, a'i bwrpas oedd hysbysu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ynghylch y gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (sydd ynghlwm yn **Atodiad 1**) a dderbyniwyd gan bartïon cyfrannog yn dilyn galwad i gyflwyno'r safleoedd hynny rhwng 14 Medi a 9 Tachwedd 2018.

Cynghorodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu fod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Pen-y-bont ar Ogwr yn strategaeth lefel uchel y mae'n rhaid i'r Cyngor ei baratoi. Mae'r CDLl yn gosod mewn termau defnydd tir holl flaenoriaethau ac amcanion y Cynllun Corfforaethol. Bydd angen i'r CDLl Newydd i'r dyfodol fynegi mewn termau defnydd tir amcanion a blaenoriaethau lles Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr.

Hysbysebwyd yr alwad am safleoedd fel y manylwyd ym mharagraff 3.2 yr adroddiad ac, erbyn y dyddiad cau ar 9 Tachwedd 2018, cafodd 172 o safleoedd eu cyflwyno a'u coladu mewn 'Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol' a atodwyd i'r adroddiad.

Manylodd yr adroddiad ar y camau nesaf mewn perthynas â phroses y ddogfen hon.

Pwysleisiodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu i'r Aelodau ei bod hi'n bwysig ailadrodd yn ystod y cam hwn nad yw cyhoeddi unrhyw safle yn y Gofrestr Safle Ymgeisiol hon yn cadarnhau unrhyw statws neu awgrym y bydd yn cael ei symud ymlaen i gael ei gynnwys mewn cynigion cyn adneuo neu'r CDLl adneuo ac nid yw'n awgrymu unrhyw ffafriaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas â'i haeddiant. Mae hyn yn cynnwys unrhyw safleoedd a gyflwynwyd gan Adrannau Mewnol y Cyngor.

Pwysleisiodd hefyd nad dogfen ymgynghori â'r cyhoedd yw'r gofrestr hon ond casgliad ffeithiol o'r safleoedd a gyflwynwyd.

Rhoddodd Paragraff 4.8 yr adroddiad wybodaeth o ran y dulliau y mae'r Tîm Cynllunio Datblygu wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r Gofrestr ac wedi sicrhau ei bod ar gael.

Rhoddodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu wybod y byddai cost yr CDLl Newydd yn cael ei thalu o'r gyllideb Cynllunio Datblygu ac yn cael ei gyflwyno gan y staff Cynllunio Datblygu gyda chyngor arbenigol a thystiolaeth a gafwyd gan ymgynghorwyr a thrwy gydweithredu gydag awdurdodau cyfagos yn ôl yr angen.

PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

228. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) NEWYDD PEN-Y-BONT AR OGWR 2018-2033 GWELEDIGAETH AC AMCANION DRAFFT, TWF A DEWISIADAU GOFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu adroddiad i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar y weledigaeth a'r amcanion drafft, y dewisiadau twf a strategaeth ofodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Pen-y-bont ar Ogwr.

Esboniodd fod y 3 adroddiad technegol (sydd ynghlwm fel atodiadau A, B ac C i'r adroddiad eglurhaol) wedi darparu gwybodaeth gefndir mewn perthynas â'r weledigaeth a'r amcanion drafft, y dewisiadau twf a'r dewisiadau strategol gofodol a gynigir ar gyfer yr CDLl newydd.

Bwriedir i'r adroddiadau technegol hyn lywio'r ymgysylltiad a'r cyfranogiad cyn adneuo parhaus a hefyd llywio'r gwaith o baratoi'r strategaeth ddethol a chamau dilynol paratoi cynlluniau:

- Adroddiad Technegol 1: Gweledigaeth ac Amcanion Drafft (sydd ynghlwm fel Atodiad A);
- Adroddiad Technegol 2: Dewisiadau Twf Strategol Drafft (sydd ynghlwm fel Atodiad B);
- Adroddiad Technegol 3: Dewisiadau Strategaeth Ofodol Drafft (sydd ynghlwm fel Atodiad C).

Amlinellodd rannau nesaf yr adroddiad grynodebau gweithredol yr Adroddiadau Technegol uchod a rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu grynodeb o bwyntiau allweddol pob un er budd yr Aelodau.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu'n cymeradwyo cynnwys Adroddiadau Technegol 1, 2 a 3 (sydd ynghlwm â'r adroddiad yn Atodiadau A, B ac C) fel sail i baratoi'r ddogfen Strategaeth a Ffefrir a fydd yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ym mis Hydref/Tachwedd 2019.

229. ADRODDIAD DIWEDD Y FLWYDDYN – PERFFORMIAD CYNLLUNIO 2018

Cyflwynodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu adroddiad ar berfformiad cynllunio mewn perthynas ag amryw feysydd Cynllunio a Rheoli Datblygu, ystadegau a gwybodaeth gysylltiedig y manylwyd arnynt yn yr atodiadau canlynol:-

Atodiad A – Cytundebau Adran 106
Atodiad B – Ystadegau apeliadau
Atodiad C – Camau gorfodi etc
Atodiad D – Ystadegau Rheoli Adeiladu
Atodiad E – Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid
Atodiad F – Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu Ion – Medi 2018
Atodiad G – Tablau'r Fframwaith Perfformiad 2017/18
Atodiad H – Cwynion (yn 2018)

Amlinellodd Paragraff 3.5 yr adroddiad rai o'r pwyntiau allweddol sy'n codi yn sgil coladu'r data mewn perthynas â'r uchod, ac ehangodd y Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu ar hyn er budd yr Aelodau.

O ran lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid, ychwanegodd yn ystod y cyfnod 2016-2017, credai 62% o ymatebwyr yr arolwg fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi rhoi cyngor cynllunio da yn erbyn cyfartaledd Cymru o 62%. Ar gyfer 2017-2018, cytunodd 50% o ymatebwyr fod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi cyngor da (yn erbyn cyfartaledd Cymru o 60%). Gellir priodoli'r dirywiad mewn bodlonrwydd cwsmeriaid i nifer o ffactorau fel cyfradd ymateb isel (14%) oherwydd y posibilrwydd o flino ar arolygon a'r ffaith bod cwsmeriaid sy'n derbyn gwasanaeth da yn ei ddisgwyl ac nad ydynt yn teimlo'r angen i lenwi'r arolygon.

PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad.

230. COFNOD HYFFORDDI

PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau sy'n rhestru sesiynau hyfforddiant sydd ar ddod i Aelodau fel rhan o Gofnod Hyfforddiant y Pwyllgorau.

231. EITEMAU BRYS

Dim un.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:11